# BookTrust Cymru

## Amser Rhigwm Mawr Cymru
## Big Welsh Rhyme Time


# Campfa'r Anifeiliaid / Animal Gym

**gan / by Rhiannon Oliver**







Be a giraffe and make yourself tall
Be a mouse, squeaky, small
Byddwch yn jiráff, estynnwch yn uchel
Byddwch yn llygoden, yn fach ac yn isel





Be an elephant, big and strong
Be a soaring bird, singing her song
Byddwch yn eliffant, yn fawr a chryf
Byddwch yn aderyn sy'n hedfan yn rhydd





Be a cheetah, running fast
Be a snake that slides through the grass
Byddwch yn tsita sy'n rhedeg yn chwim
Byddwch yn neidr sy'n llithro yn sydyn





Be a monkey, jump and clap
And be a sloth and have a nap!
Byddwch yn fwnci sy'n neidio a chlapio
A nos da sloth, mae'n amser ymlacio!

Darluniau / Illustrations: Leonie Servini

**Gwyliwch fideo ategol y rhigwm fan yma**
**www.booktrust.org.uk/cy-gb/bigwelshrhymetime**

adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**



Rhif Elusen / Charity Number: 313343

BookTrust Cymru

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Big Welsh Rhyme Time

# Campfa'r Anifeiliaid / Animal Gym

## Gweithgareddau

**Pwrpas:** Annog symud, iaith a lleferydd, cof a chreadigrwydd.

**Deunyddiau sydd eu hangen:** Taflenni gweithgaredd wedi'u hargraffu, glud, siswrn a ffyn lolipop ar gyfer rhai gweithgareddau.

### Symud fel yr Anifeiliaid

1. Gwyliwch fideo'r rhigwm gynifer o weithiau ag y dymunwch
2. Symudwch fel yr anifeiliaid. Gall plant ddyfeisio'u symudiadau anifeilaidd eu hunain, hyd yn oed!

**I'ch helpu, dyma'r symudiadau anifeilaidd o'r rhigwm:**

**Jiraff -** Ymestyn yn dal
**Llygoden -** Mynd i'ch cwrcwd yn isel, dwylo fel clustiau
**Eliffant -** Coesau'n llydan; stompiwch, defnyddiwch fraich fel trwnc
**Aderyn -** Fflapio breichiau fel pe baen nhw'n adenydd
**Tsita -** Rhedeg yn gyflym yn yr unfan
**Neidr -** Rhoi dwylo ynghyd a symud dwylo a breichiau o'ch blaen mewn siâp 'S' parhaus
**Mwnci -** Troi'r dwylo at y ceseiliau, neidio a churo dwylo.
**Sloth -** Gollwng y breichiau a rhan uchaf y corff, rhoi'r dwylo wrth ochr yr wyneb i 'hepian cysgu'

### Gêm Gofio

1. Argraffwch y daflen ddarluniau ar bapur neu gerdyn
2. Torrwch bob anifail allan a'u rhoi ar fwrdd neu arwyneb gwastad
3. Enwch bob anifail
4. Gofynnwch i'r plant gau'u llygaid ac yna tynnwch un anifail oddi ar y bwrdd – allan nhw ddyfalu pa un sydd ar goll?


Rhif Elusen / Charity Number: 313343

BookTrust Cymru

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Big Welsh Rhyme Time

# Campfa'r Anifeiliaid / Animal Gym

## Gweithgareddau

### Cardiau Fflach

1. Argraffwch y daflen ddarluniau ar gerdyn (neu argraffwch ar bapur a'i gludo ar gerdyn â glud)
2. Torrwch bob anifail allan o'r papur a'u gludo ar ffon lolipop neu defnyddiwch heb ffyn fel cardiau fflach
3. Gwyliwch fideo'r rhigwm gynifer o weithiau ag y dymunwch
4. Daliwch y cardiau i fyny a holi'r plant a allan nhw enwi'r anifeiliaid yn Gymraeg a Saesneg. Allan nhw wneud sain yr anifail hefyd?
5. Gofynnwch iddyn nhw allan nhw gofio symudiadau'r anifeiliaid yn y rhigwm. Allan nhw symud fel yr anifeiliaid hefyd?
6. Gofynnwch i'r plant allan nhw gofio unrhyw rai o'r geiriau a ddefnyddir i ddisgrifio'r anifeiliaid. Allan nhw feddwl am eiriau eraill i'w defnyddio i siarad am yr anifeiliaid yn ogystal?

### Helfa Drysor

1. Argraffwch y daflen ddarluniau ar bapur neu gerdyn
2. Torrwch bob anifail allan a'u rhoi mewn lleoliadau gwahanol o gwmpas eich lleoliad neu gartref
3. Gofynnwch i'r plant chwilio am yr anifeiliaid a gwneud eu symudiadau a'u synau pan fyddan nhw'n dod o hyd iddyn nhw
4. Gallech hefyd argraffu copi arall o'r daflen ddarluniau er mwyn i'r plant allu rhoi tic yn ymyl pob anifail wrth ddod o hyd iddyn nhw
5. Gallech holi'r plant ble allen nhw chwilio am yr anifeiliaid hyn yn y byd go iawn – ydyn nhw erioed wedi gweld unrhyw rai o'r anifeiliaid yn y rhigwm?


Rhif Elusen / Charity Number: 313343




Darluniau / Illustrations: Leonie Servini